



MODULE CODE: ECDE7002

ASSESSMENT COMPONENT: 2

STUDENT NAME: Rachel Bendall

STUDENT NUMBER: 1658035

Doctorate in Education (EdD)

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 2

AI Acknowledgement

I acknowledge the use of ChatGPT <https://chatgpt.com/> on 30.04.26 to proof-read my work. I used the prompt(s):

1. Check spelling, grammar and punctuation for accuracy.
2. Is there any repetitive content that I can remove to reduce the word count?
3. Can some of my longer sentences be made more succinct?

I confirm that I have not presented any AI generated text as my own work.

I confirm that I have copies of my drafts, notes, and other resources I used before and after the use of AI tools which I may be asked to provide in evidence.

Teitl

Amlinellwch y dull rydych chi'n ei ffafrio (ansoddol/meintiol/cymysg) ar gyfer yr ymholiad hwn gan ganolbwyntio ar UN o'ch cwestiynau ymchwil. Cynlluniwch broses gasglu data addas a dull dadansoddi data cysylltiedig, gan adfyfrio ar eu cryfderau a'u cyfyngiadau. Adfyfyrwch yn feirniadol ar faterion moesegol sy'n cwmpasu'r broses ymchwil.

Cyflwyniad

Nod yr astudiaeth arfaethedig ydy archwilio'r ffactorau sy'n cyfrannu i ganfyddiadau darpar athrawon nad yw eu sgiliau Cymraeg yn 'ddigon da' i ddilyn eu hastudiaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) drwy gyfrwng y Gymraeg. Y cwestiwn ymchwil bwriedir cynllunio ar ei gyfer yn yr aseiniad hwn ydy 'Beth yw canfyddiadau darpar athrawon sy'n dilyn rhaglenni AGA o'u sgiliau Cymraeg?' Dewiswyd y cwestiwn hwn gan yr ystyrir i fod yn rhagarweiniad i'r ddau gwestiwn ymchwil arall yr amlinellwyd yng Nghydran 1 (Creswell, 2014). Er mwyn medru cyrraedd casgliadau ynghylch a yw darpar athrawon AGA yn canfod bod eu sgiliau Cymraeg ddim yn 'ddigon da' (Cwestiwn 2), a deall y ffactorau sy'n cyfrannu i'r canfyddiad hwn (Cwestiwn 3) rhaid, yn gyntaf, gwybod beth yw canfyddiadau cyffredinol darpar athrawon AGA am eu sgiliau Cymraeg. Seilir y penderfyniad, felly, ar y data yr anelir at eu casglu, a threfn rhesymegol y cwestiynau ymchwil fydd yn llywio cyfeiriad a strwythur yr astudiaeth (Creswell, 2014).

Gan fod y cwestiwn ymchwil hwn yn canolbwyntio ar archwilio safbwyntiau a phrofiadau unigolion, mae'n cyd-fynd yn bennaf â pharadeim adeiladwriaethol. O fewn y fframwaith hwn, ystyrir realiti fel rhywbeth sy'n cael ei lunio'n gymdeithasol drwy brofiadau a rhyngweithiadau (Denscombe, 2021, t. 119; Creswell & Creswell, 2018, tt. 8–10). Gyda'i bwyslais ar "ganfyddiadau", arweinia'r cwestiwn at fabwysiadu epistemoleg ddehongliadol, lle caiff gwybodaeth ei ffurfio drwy ddehongli'r ystyron y mae cyfranogwyr yn eu priodoli (Cohen, Manion & Morrison, 2018, tt. 17–19; Pring, 2015, tt. 30–34). O ganlyniad, ffocws yr aseiniad hwn fydd cynllunio a gwerthuso'n feirniadol dull ansoddol o gasglu a dadansoddi data, gydag ystyriaeth feirniadol o faterion moesegol yn ffurfio rhan ganolog o'r cynllun.

Dull

Deallir o fframwaith cynllunio ymchwil Saunders, Lewis a Thornhill (2023, t. 131) mai'r paradeim ymchwil sy'n llywio'r dull. Paradeim adeiladwriaethol, lle y caiff realiti ei adeiladu trwy rhyngweithiadau cymdeithasol (ontoleg) allanol (Denscombe, 2021, t. 119; Creswell & Creswell, 2018, tt. 8–10) a gwybodaeth ei chreu trwy ddehongliadau unigolion o'u profiadau a'u cyd-destunau (epistemoleg) (Thomas, 2021, tt. 76–78; Cohen, Manion & Morrison, 2018, tt. 6–9), ydy sail athronyddol y cwestiwn ymchwil hwn. Golyga hyn y bwriedir defnyddio dull ansoddol ar gyfer ateb y cwestiwn ymchwil a ddewiswyd.

Caiff ymchwil ansoddol ei deall fel dull sy'n ymwneud ag archwilio a deall yr ystyron y mae unigolion neu grwpiau'n eu priodoli i ffenomenau cymdeithasol. Fe'i gynhelir fel arfer mewn lleoliadau naturiol, bywyd go iawn cyfranogwyr ac mae'n cynnwys casglu data anrhif, fel cyfweiliadau, arsylwadau a thestunau, i gynhyrchu mewnwelediadau cyfoethog, wedi'u seilio ar gyd-destun (Creswell, 2014; Aspers a Corte, 2019). I'r gwrthwyneb, mae ymchwil feintiol wedi'i gwreiddio mewn rhagdybiaethau positifadd ac yn canolbwyntio ar fesur newidynnau, profi damcaniaethau, a chynhyrchu canfyddiadau cyffredinoladwy trwy ddadansoddiad ystadegol. Fel arfer, mae'n defnyddio dyluniadau strwythuredig a data rhifiadol i ateb cwestiynau sy'n ymwneud â "beth," "faint," neu "i ba raddau" (Creswell, 2014). Tra bod ymchwil ansoddol yn ceisio dyfnder, ystyr a dealltwriaeth gyd-destunol, mae ymchwil feintiol yn blaenoriaethu gwrthrychedd, dibynadwyedd a chyffredinolli. Defnyddir dulliau ansoddol yn aml i gynhyrchu mewnwelediadau a damcaniaethau (Aspers a Corte, 2019).

Mae'r dull ansoddol yn addas ar gyfer y cwestiwn ymchwil a ddewiswyd gan ei fod yn canolbwyntio ar archwilio canfyddiadau darpar athrawon o'u sgiliau iaith Gymraeg, sy'n oddrychol, yn ddibynol ar gyd-destun, ac wedi'u hadeiladu'n gymdeithasol. Cynlluniwyd dulliau ansoddol i gynhyrchu dealltwriaeth fanwl o ystyron a phrofiadau cyfranogwyr (Creswell a Poth, 2016; Aspers a Corte, 2019), ac fe'u defnyddir yn helaeth mewn ymchwil addysgol i archwilio credoau a safbwyntiau athrawon. Maent yn caniatáu i ymchwilwyr ddehongli sut mae unigolion yn deall eu galluoedd eu hunain o fewn cyd-destunau cymdeithasol ac addysgol penodol (Khan, Fazal et al., 2025; Mirhosseini a Pearson, 2025). I'r gwrthwyneb, byddai dulliau meintiol yn gyfyngedig i fesur canfyddiadau'n rhifiadol, gan gynnig llai o fewnwelediad i gymhlethdod a ffurfiant y safbwyntiau hynny.

Er addasrwydd dull ansoddol ar gyfer archwilio canfyddiadau, gallai dull meintiol neu ddull cymysg fod yn briodol ar gyfer yr astudiaeth hon hefyd. Gellir mesur canfyddiadau o sgiliau iaith Gymraeg gan ddefnyddio offerynnau strwythuredig, gan alluogi nodi patrymau a

thueddiadau ar draws samplau mwy (Creswell a Creswell, 2018). Mae dulliau meintiol yn caniatáu ar gyfer cyffredinol mwy a chymhariaeth ystadegol rhwng grwpiau, a all fod yn arbennig o werthfawr mewn ymchwil addysg athrawon (Cohen, Manion a Morrison, 2018). Yn ogystal, maent yn cynnig gwrthrychedd a dibynadwyedd cynyddol o'i gymharu â dulliau deongliadol yn unig (Bryman, 2016). Felly, gall dyluniad dull cymysg ddarparu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr trwy gyfuno lled data meintiol â dyfnder mewnwelediadau ansoddol.

Bwriedir cyflwyno'r ymchwil ar ffurf astudiaeth achos archwiliadol. Mae'r dull hwn yn addas iawn ar gyfer ymchwilio i ffenomenau cymhleth, sydd heb eu deall yn dda - megis ganfyddiadau darpar athrawon o'u sgiliau Cymraeg - drwy alluogi archwiliad manwl o ffactorau rhyngweithiol lluosog (Flyvbjerg, 2006). Mae ei hyblygrwydd a'i bod yn agored i ganfyddiadau annisgwyl yn ei gwneud yn fwy priodol nag astudiaethau achos gwerthusiadol neu esboniadol sy'n canolbwyntio ar brofi damcaniaethau rhagnodedig (Flyvbjerg, 2006; Eisenhardt, 1989).

Wedi ystyried addasrwydd dull ansoddol, meintiol a chymysg ar gyfer y cwestiwn ymchwil dan sylw, cesglir mai dull ansoddol sydd fwyaf priodol. Yn y pendraw, pan ddaw at nod yr astudiaeth arfaethedig yn ei chyfanrwydd, efallai taw dull cymysg fydd orau. Yn y cyfamser, a chyda chwestiwn ymchwil sy'n canolbwyntio'n benodol ar ganfyddiadau, dehongliadau a chyd-destunau unigolion, cynllunio trwy'r dull ansoddol a wneir (Creswell a Poth, 2016; Aspers a Corte, 2019; Khan, Fazal a Farrukh, 2025; Mirhosseini a Pearson, 2025).

Samplu

Cyfeiria samplu at y broses o ddewis unigolion neu achosion o boblogaeth fwy er mwyn cynhyrchu canfyddiadau sy'n mynd i'r afael â nodau'r ymchwil (Cohen, Manion a Morrison, 2018, tt. 153-157). Anaml y mae'n ymarferol astudio poblogaeth gyfan, felly mae samplu yn galluogi ymchwilwyr i gasglu data y gellir ei reoli wrth gynnal trylwyredd dadansoddol (Creswell a Creswell, 2018). Rhennir strategaethau samplu yn fras yn ddulliau tebygolrwydd ac annhebygolrwydd. Mae samplu tebygolrwydd yn cynnwys dewis ar hap, gan roi cyfle hysbys i bob aelod o boblogaeth gael eu cynnwys a chefnogi cyffredinol ystadegol. Mewn cyferbyniad, dibynna samplu annhebygolrwydd ar ddewis di-hap ac fe'i defnyddir yn gyffredin mewn ymchwil ansoddol, lle'r nod yw cael dealltwriaeth fanwl yn hytrach na chynhyrchu canfyddiadau cyffredinoladwy (Cohen, Manion a Morrison, 2018, 153-157).

Ar gyfer y cynllun ymchwil hwn, mabwysiadir dau ddull samplu er mwyn adnabod cyfranogwyr: samplu bwriadol a samplu cyfleustra. Dull annhebygolrwydd ydy samplu bwriadol (Denscombe, 2021), a'i nod ydy dewis sampl sy'n cynrychioli ystod o fewn carfan y rhaglenni AGA, gan gynnwys darpar athrawon sy'n siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, a rheiny sydd wedi dysgu'r iaith fel iaith ychwanegol. Gellir dadlau bod y dull hwn yn hwyluso casglu data o'r cyfranogwyr mwyaf perthnasol neu "wybodus" (Denscombe, 2021). Yn ôl Palinkas et al. (2015), mae samplu bwriadol yn arbennig o briodol mewn ymchwil ansoddol, gan ei fod yn caniatáu dewis cyfranogwyr yn seiliedig ar feini prawf penodol sy'n adlewyrchu amcanion yr astudiaeth. Yn ogystal, pwysleisia Patton (2002) bod y dull hwn yn galluogi ymchwilwyr i ganolbwyntio ar unigolion sydd â phrofiad, gwybodaeth neu fewnwelediad sy'n uniongyrchol berthnasol i'r pwnc ymchwil.

Gellir cyfiawnhau'r dewis o'r ail ddull, sef samplu cyfleustra ar sawl sail (Thomas, 2021). Yn wahanol i samplu tebygolrwydd, sy'n gofyn am ffrâm samplu gynhwysfawr a dulliau dewis ar hap, galluoga samplu cyfleustra i ymchwilwyr ddefnyddio cysylltiadau a rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli er mwyn cyrraedd cyfranogwyr. Cynigia'r dull hwn mynediad cyflym ac ymarferol at unigolion sydd ar gael yn rhwydd i'r ymchwilydd (Neuman, 2014). Mae'r dull hwn yn addas ar gyfer ateb y cwestiwn ymchwil gan taw'r bwriad ydy recriwtio darpar athrawon sy'n dilyn rhaglenni AGA yn Sefydliad A, sef gweithle'r ymchwilydd, ac mewn sefydliadau AGA eraill lle mae gan yr ymchwilydd gysylltiadau bydd yn medru rhannu gwahoddiadau gyda chyfranogwyr potensial. Yn ogystal, mae samplu cyfleustra yn cynnig hyblygrwydd wrth recriwtio, gan ganiatáu i ymchwilwyr dargedu unigolion sy'n bodloni meini prawf yr astudiaeth, er bod yn rhaid cydnabod y gall lefelau parodrwydd i gymryd rhan amrywio ymhlith cyfranogwyr posibl (Trochim a Donnelly, 2008).

Er bod rhesymau clir dros ddefnyddio'r dulliau samplu hyn, mae'n bwysig cydnabod eu cyfyngiadau. Ymhlith y rhain mae diffyg gallu i gyffredinolï'r canfyddiadau, y posibilrwydd o duedd yn sgil rhagdybiaethau'r ymchwilydd, a'r ffaith y gall gwirfoddolwyr fod yn wahanol i'r boblogaeth ehangach – er enghraifft, gallent ddangos lefelau uwch o gymhelliant neu ddiddordeb, a all ddylanwadu ar y canlyniadau (Patton, 2002; Creswell a Creswell, 2018; Trochim a Donnelly, 2008).

Moeseg

Fframwaith aml-haenog sy'n cyfuno cymeradwyaeth sefydliadol, egwyddorion arweiniol, codau proffesiynol, a barn berthynol ydy moeseg ymchwil mewn addysg (BERA, 2024; Cohen, Manion a Morrison, 2018). Sicrheir bod ymchwil sy'n cynnwys dysgwyr ac addysgwyr yn cael ei chynnal yn gyfrifol, yn ddiogel, a chyda pharch at bob cyfranogwr. Pwysleisia llenyddiaeth ymchwil addysgol bod ymarfer moesegol yn weithdrefnol ac yn barhaus, gan ei gwneud yn ofynnol i adfyfrio drwy gydol y broses ymchwil yn hytrach na chymeradwyaeth ymlaen llaw yn unig (BERA, 2024; Cohen, Manion a Morrison, 2018).

Cyn dechrau ar yr ymchwil, ceisir cymeradwyaeth foesegol lawn drwy gwblhau a chyflwyno ffurflen 'Cais am Gymeradwyaeth Foesegol' (gweler copi o'r ffurflen wag yng Nghydran Asesu 3) i Bwyllgor Moeseg y Brifysgol, yn unol â Chod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y sefydliad (Sefydliad A, 2022). Yn ychwanegol at y cod hwn, dilynr egwyddorion moesegol y British Educational Research Association (BERA, 2024) ynghyd â Pholisi Rheoli Data'r Brifysgol (Sefydliad A, 2022a). Seilir dyluniad a gweithrediad yr astudiaeth, felly, ar egwyddorion allweddol megis parch, cynhwysiant, gonestrwydd, tryloywder a gofal (Sefydliad A, 2022; BERA, 2024). Sicrheir diogelu hawliau a lles cyfranogwyr drwy geisio caniatâd gwybodus, egluro'n glir pwrpas yr astudiaeth, manylu ar drefniadau cyfrinachedd, a phwysleisio hawl cyfranogwyr i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg o fewn terfyn amser heb unrhyw ganlyniadau negyddol (BERA, 2024).

Yn ystod y broses casglu data, bwriedir darparu datganiad yn nodi cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y cyfranogwyr, yn ogystal â'u hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn ystod y dull ymchwil perthnasol (BERA, 2024). Cynhelir anhysbysrwydd drwy ddefnyddio ffugenwau wrth gyflwyno'r canlyniadau a'r dadansoddiad, gyda Braun a Clarke (2013) yn pwysleisio bod ffugenwau hefyd yn gallu helpu i gyfleu profiadau cyfranogwyr mewn ffordd fwy personol. Yn ogystal, eglurir i'r cyfranogwyr y bydd eu data'n cael eu trin yn gyfrinachol ac yn ddiogel, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r ymchwilydd yn unig (Thomas, 2021).

Bydd yr ymchwili yn cynnwys prosesu data personol, gan gynnwys ffurflenni caniatâd a manylion cyswllt cyfyngedig (GDPR, 2016; Deddf Diogelu Data, 2018). Yn unol ag egwyddorion diogelu data, dim ond y data lleiaf angenrheidiol fydd yn cael eu casglu, ac ni chesglir unrhyw ddata categori arbennig, sef data sensitif sy'n gofyn am lefel uwch o ddiogelwch o dan gyfraith diogelu data (Undeb Ewropeaidd, 2016; ICO, 2024, t. 3). Cyfyngir gwybodaeth adnabyddadwy, megis enwau ac e-byst, at ddibenion recriwtio yn unig, a chaiff ei disodli gan ffugenwau yn ystod dadansoddi er mwyn sicrhau anhysbysrwydd a chyfrinachedd (BERA, 2024, tt. 9–11; Cohen, Manion a Morrison, 2018, tt. 133–135). Pan ddaw at storio data, defnyddir dyfais sefydliadol sydd â mynediad at Microsoft Office 365. Dyma'r pecyn cwmwl defnyddia Sefydliad A. Pecyn dilysu aml-ffactor sy'n gofyn am ddau neu fwy o brawf adnabod i fewngofnodi ydyw. Dilëir y data ar ôl dadansoddi. Sicrheir storio diogel, mynediad cyfyngedig a hawliau tynnu'n ôl clir, gan ddiogelu cyfranogwyr, y sefydliad a'r ymchwilydd drwy gydol y broses ymchwili.

Yn ogystal, gwneir ymdrechion i leihau unrhyw risgiau neu anghysur posibl a allai godi o gymryd rhan yn yr astudiaeth (BERA, 2024). Mae'r astudiaeth yn codi ystyriaethau moesegol cyd-gysylltiedig sy'n ymwneud â risg i gyfranogwyr, yn enwedig gan y gallent brofi pwysau cymdeithasol neu broffesiynol i gyflwyno eu cymhwysedd yn y Gymraeg yn gadarnhaol oherwydd ei statws mewn addysg yng Nghymru. Noda Dörnyei (2007, t. 67) bod pynciau sy'n gysylltiedig â hunaniaeth yn arbennig o dueddol o gael ymatebion dan ddylanwad cymdeithasol, yn enwedig pan fo cymhwysedd yn cael ei hunanasesu. Mae hyn yn uniongyrchol berthnasol yma, gan fod darpar athrawon yn adfyfrio ar eu gallu eu hunain yn y Gymraeg. Gall hyn gynyddu'r risg o duedd dymunoldeb cymdeithasol a gorfodaeth ganfyddedig (BERA, 2024, tt. 6–8; Cohen, Manion a Morrison, 2018, tt. 118–121). Caiff hyn ei liniaru trwy bwysleisio gwirfoddolrwydd, anhysbysrwydd, ac absenoldeb unrhyw effaith ar asesiad neu gyflogaeth (Saunders, Kitzinger and Kitzinger, 2015, tt. 625–627).

Yn ychwanegol at risgiau sy'n ymwneud â chyfranogwyr, gall safle'r ymchwilydd greu anghydbwysedd pŵer canfyddedig a chodi risgiau o ran ffiniau moesegol a rheolaeth data diogel (Farrimond, 2013, tt. 85–87). Caiff hyn ei reoli trwy wahanu rolau ymchwili, storio data sy'n cydymffurfio â GDPR, a goruchwyliaeth academiaidd briodol. Yn olaf, mae risg i enw da sefydliadol os caiff canfyddiadau eu camliwio neu os caiff unigolion eu hadnabod; felly caiff y risg hon ei liniaru drwy adrodd canfyddiadau'n ddienw a chydymffurfio'n llawn â chanllawiau BERA (2024) ar ledaenu moesegol.

Canolbwyntia ystyriaethau moesegol yn y dyluniad ymchwili hwn ar amddiffyn darpar athrawon AGA rhag pwysau cymdeithasol, sicrhau cyfranogiad gwirfoddol, a diogelu anhysbysrwydd.

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 2

Rhoddir sylw ychwanegol i safle ymchwilwyr, cydymffurfiaeth â diogelu data (GDPR), ac enw da sefydliadol. Caiff risgiau eu lliniaru trwy ganiatâd gwirfoddol gwybodus, trin data yn ddiogel, a glynu wrth ganllawiau moesegol BERA (2024).

Dulliau casglu data

Cynllunier ar gyfer gwneud defnydd o ddau ddull casglu data: cyfweiliadau grŵp lled-strwythuredig ac holiadur fydd yn alinio gyda dull ansoddol yr ymchwil. Caniateir hyn driongli tystiolaeth ansoddol i groeswrio themâu a dehongliadau, gan wella dibynadwyedd y canfyddiadau (Creswell, 2014).

Holiadur

I gasglu gwybodaeth gychwynnol darpar athrawon rhaglen AGA ynghylch eu sgiliau Cymraeg, datblygir a dosbarthir holiadur ar-lein drwy Microsoft Forms fydd yn wirfoddol, yn anhysbys ac yn gyfrinachol (Cohen, Manion & Morrison, 2018). Bydd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau mynegi barn ag ysgrifennir mewn iaith glir a hygyrch i'r darllenwyr (Thomas, 2021). Bydd y cwestiynau agored hyn yn casglu data ansoddol ar safbwyntiau a phrofiadau unigolion (Crotty, 1998) fydd yn cyfrannu at ateb y cwestiwn ymchwil.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau'n gysylltiedig â defnyddio holiaduron fel dull casglu data. Yn ôl Bethlehem a Kersten (2017), gall hunan-ddethol cyfranogwyr arwain at duedd samplu, gan olygu efallai nad yw'r sampl yn cynrychioli'r boblogaeth ehangach, ac felly'n cyfyngu ar gyffredinol i'r canlyniadau. Yn ogystal, er hwylustod arolygon ar-lein, gall cyfraddau ymateb isel danseilio dilysrwydd a dibynadwyedd y data (Cook & Campbell, 2000). O ganlyniad, cynllunier defnyddio cyfweiliadau grŵp ochr yn ochr â'r holiadur i gryfhau'r dull casglu data (Creswell, 2014).

Cyfweiliadau lled-strwythuredig

Yn ogystal â'r holiadur, cynllunier ar gyfer defnyddio cyfweiliadau grŵp fel dull ymchwil ychwanegol (Creswell, 2012). Mae'r dull hwn yn galluogi archwilio ystod o safbwyntiau ac yn cynhyrchu data ansoddol manwl a chyfoethog (Cohen, Manion & Morrison, 2018, t. 620). Rhydd y cyfweiliad gyfle i gasglu mewnwelediadau dyfnach i farn a phrofiadau'r darpar athrawon drwy ofyn cwestiynau amrywiol (Adams yn Wholey, Hatry & Newcomer, 2015).

Dewisir fformat lled-strwythuredig, a ganiateir i gyfranogwyr ymhelaethu ar eu profiadau a'u canfyddiadau, tra'n sicrhau bod pynciau allweddol yn cael sylw (Cohen, Manion & Morrison, 2018, t. 602). Paratwir cyfres o gwestiynau ymlaen llaw, gan gynnwys prif gwestiynau ac is-gwestiynau, ond cedwir y strwythur yn hyblyg er mwyn i'r drafodaeth ddatblygu'n naturiol a chaniatáu i syniadau newydd godi (Bell & Waters, 2018). Nod y cyfweiliad fydd deall barn a theimladau'r cyfranogwyr ynghylch eu sgiliau Cymraeg.

Er mai'r bwriad ydy recordio'r cyfweiliadau, efallai na fydd hyn yn cyd-fynd gyda sicrhau cysur cyfranogwyr ac ystyried natur bosibl sensitif y trafodaethau, (Roulston, 2014; King & Horrocks, 2010). Yn hytrach, efallai y byddai defnyddio nodiadau maes i gofnodi ymatebion a chiwiau di-eiriau (Thomas, 2021) yn fwy addas. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn peri heriau, gan ei fod yn gofyn am gofnodi gwybodaeth yn ddetholus mewn amser real, a all arwain at hepgor manylion neu gyflwyno rhagfarn ymchwilydd (Cohen, Manion & Morrison, 2018; Thomas, 2017). Yn wahanol i recordiadau sain, nid yw'n bosibl ailwirio na dadansoddi'r data yn fanwl wedi'r cyfweiliad. Penderfynir, felly, mai cyfuniad o'r ddau ddull sef recordiadau sain am gywirdeb a nodiadau maes oherwydd eu gallu i ddal cyd-destun a chiwiau di-eiriau, gan gyfoethogi'r data ansoddol (Thomas, 2017).

Yn olaf, mae cyfyngiadau ehangach i gyfweiliadau grŵp yn cynnwys dylanwad deinameg grŵp, a all effeithio ar gyfranogiad neu arwain at duedd dymunoldeb cymdeithasol (Krueger & Casey, 2015). Gallent hefyd fod yn ddwys o ran amser ac adnoddau (Seidman, 2013), gyda goblygiadau i ddilysrwydd a dibynadwyedd y canfyddiadau (Stewart & Shamdasani, 2014). Awgryma hyn efallai y byddai dewis cyfweiliadau gydag unigolion yn fwy manteisiol oherwydd eu bod yn galluogi archwiliad dyfnach o brofiadau personol ac yn cynhyrchu ymatebion mwy gonest, yn enwedig ar bynciau sensitif megis hunanwerthusiad o sgiliau Cymraeg, heb ddylanwad deinameg grŵp (Cohen, Manion a Morrison, 2018; King a Horrocks, 2010; Roulston, 2014). Maent hefyd yn lleihau pwysau cymdeithasol ac yn caniatáu ar gyfer cyfrifon cyfoethocach a mwy cynnil o safbwyntiau cyfranogwyr dros amser (Krueger a Casey, 2015; Seidman, 2013).

I grynhoi, y cynllun ar gyfer casglu data ansoddol sy'n ateb y cwestiwn ymchwil dan sylw ydy'r defnydd o holiadur ar-lein sy'n cynnwys cwestiynau agored, a chyfweiliadau unigol lled-strwythuredig wedi'u recordio trwy recordiadau sain a chymryd nodiadau maes gan yr ymchwilydd. Caiff data eu triogli er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'r ffenomen sy'n cael ei hastudio.

Dulliau dadansoddi data

Dau ddull dadansoddi sydd o dan ystyriaeth yn y rhan hon o'r cynllun ymchwil: dull Dadansoddiad Thematig (Braun & Clarke, 2006; 2022) a dull Dadansoddiad Naratif.

Dadansoddiad Thematig

Ystyrir defnyddio dull chwe cham Braun a Clarke (2006; 2022) o ddadansoddi thematig i archwilio'r data a gesglir o'r holiadur a'r cyfweiliadau. Yn dilyn ymgyfarwyddo â'r data drwy ei ddarllen dro ar ôl tro (Braun a Clarke, 2006, t. 87), dechreuir ar y broses godio. Er, efallai, y bydd rhai codau'n dod i'r amlwg yn naturiol, mabwysiadir dull mwy gweithredol a systematig yn ogystal i'w hadnabod er mwyn sicrhau cydbwysedd (Braun a Clarke, 2006, t. 89). Er mwyn osgoi canolbwyntio ar is-set gyfyngedig o ddata, anelir at godio set lawn drwy gasglu darnau unigol o ddata a'u trefnu o dan godau perthnasol (Braun a Clarke, 2006, t. 89).

Cyflwyno Creswell & Creswell (2018, t. 186) dadansoddiad thematig fel proses ansoddol graidd sy'n cynnwys codio a datblygu themâu sy'n dal ystyron a rennir ar draws setiau data . Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r cwestiwn ymchwil dan sylw, gan ei fod yn galluogi nodi patrymau cyffredin mewn agweddau, lefelau hyder a phrofiadau. Yn yr un modd, pwysleisia Cohen, Manion & Morrison (2018, t. 668) ei fod yn systematig o nodi patrymau cylchol gan gefnogi cymhariaeth ar draws cyfranogwyr. Tynna Thomas (2017, t. 181) sylw at ei hyblygrwydd, er y rhybuddia bod angen dehongli'n ofalus i sicrhau mewnwelediadau manwl i ganfyddiadau cyfranogwyr.

Dadansoddiad Naratif

Dull dadansoddi data ansoddol sy'n canolbwyntio ar y straeon y mae unigolion yn eu hadrodd i wneud synnwyr o'u profiadau ydy dadansoddiad naratif. Wedi'i wreiddio yng ngwaith ysgolheigion fel Riessman (2008) a Polkinghorne (1995), mae'n trin naratifau nid yn unig fel data, ond fel adeiladwaith sy'n creu ystyr wedi'i lunio gan gyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol. Pwysleisia Riessman (2008, t. 11) bod dadansoddiad naratif yn archwilio "how stories are constructed, for whom, and for what purposes," tra bod Polkinghorne (1995, t. 12) yn tynnu sylw at ei rôl wrth drefnu profiadau dynol yn gyfrifon cydlynol. O fewn cynllun ymchwil ansoddol sy'n defnyddio holiaduron a chyfweiliadau lled-strwythuredig, mae dadansoddiad naratif yn arbennig o addas gan ei fod yn ffordd o ddal persbectifau cyfannol cyfranogwyr (Cohen, Manion & Morrison, 2018). Gall ymatebion holiadur agored ennyn darnau naratif byr, tra bod cyfweiliadau lled-strwythuredig yn darparu straeon cyfoethocach a mwy manwl. Mae strwythur hyblyg cyfweiliadau yn caniatáu i gyfranogwyr fynegi eu profiadau o'u defnydd o'r Gymraeg yn eu geiriau eu hunain, gan gyd-fynd â'r pwyslais naratif ar lais a goddrychedd.

Galluoga'r dull i'r ymchwilydd ddadansoddi cynnwys a strwythur cyfrifon cyfranogwyr, gan nodi themâu, trobwyntiau ac ystyron sylfaenol (Creswell & Creswell, 2018). Mae ei ddyfnder a'i sensitifrwydd i gyd-destun, a'i allu i gipio cymhlethdod a safbwyntiau unigol yn ei wneud yn arbennig o werthfawr ar gyfer archwilio hunaniaeth a phrofiad byw cyfranogwyr (Cohen, Manion & Morrison, 2018, t. 643). Alinia hyn gyda ffocws y cwestiwn ymchwil ar ganfyddiadau darpar athrawon o'u sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n ddull sy'n mynd ag amser ac sy'n cyflwyno heriau wrth gyffredinoli. Gall dehongli hefyd fod yn oddrychol, gan godi pryderon ynghylch rhagfarn ymchwilwyr (Riessman, 2008, t. 13; Thomas, 2017, t. 174).

Wedi ystyried dau ddull dadansoddi data ar gyfer y cwestiwn ymchwil dan sylw, cesglir mai dadansoddi thematig sydd fwyaf priodol na dadansoddiad naratif. Pwysleisia Creswell & Creswell (2018, t. 186) bod dulliau thematig yn addas iawn ar gyfer nodi patrymau cyffredin ar draws cyfranogwyr, gan gyd-fynd â chwestiynau sy'n seiliedig ar ganfyddiadau. Er bod Riessman (2008, t. 11) yn tynnu sylw at ddadansoddi naratif fel un sy'n canolbwyntio ar gyfrifon unigol, noda Cohen, Manion & Morrison (2018, t. 643) ei bwyslais ar gadw naratifau cyfannol. O ystyried y nod o gymharu canfyddiadau ar draws carfan, mae dadansoddi thematig yn cynnig mwy o eglurder dadansoddol, tra gall dadansoddi naratif fod yn ddiangen o fanwl ac yn llai ffafriol i gymharu ar draws cyfranogwyr neu achosion.

Diwedd glo

I gloi, mabwysiaida'r astudiaeth arfaethedig hon dull ansoddol, adeiladwriaethol i archwilio canfyddiadau darpar athrawon o'u sgiliau iaith Gymraeg. Trwy ddyluniad astudiaeth achos archwiliadol, bydd data'n cael eu casglu gan ddefnyddio holiaduron agored a chyfweliadau lled-strwythuredig gyda chyfranogwyr unigol, gan alluogi mewnwleidiadau eang a dwfn. Defnyddir dadansoddiad thematig Braun a Clarke (2006) i nodi patrymau ar draws cyfranogwyr, gan gefnogi cymhariaeth o ganfyddiadau a rennir. Bydd samplu pwrpasol a chyfleus yn sicrhau dewis cyfranogwyr perthnasol, er bod cyfyngiadau o ran cyffredinol yn cael eu cydnabod. Bydd ystyriaethau moesegol, gan gynnwys caniatâd gwybodus, anhysbysrwydd, a diogelu data, yn sail i bob cam o'r ymchwil. Yn gyffredinol, nod yr astudiaeth yw cynhyrchu mewnwleidiadau ystyrlon, sy'n sensitif i gyd-destun, i sut mae darpar athrawon sy'n dilyn rhaglenni AGA yng Nghymru yn deall ac yn gwerthuso eu galluoedd iaith Gymraeg.

3622 o eiriau

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 2

Cyfeirnodau

- Aspers, P. and Corte, U. (2019) 'What is qualitative in qualitative research', *Qualitative Sociology*, 42(2), pp. 139–160.
- Bell, J. and Waters, S. (2018) *Doing your research project: A guide for first-time researchers*. 7th edn. Open University Press.
- Bethlehem, J. a Kersten, H. (2017) *Understanding and reducing survey nonresponse*. Statistics Netherlands.
- Braun, V. a Clarke, V. (2006) 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), pp. 77–101.
- Braun, V. a Clarke, V. (2013) *Successful Qualitative Research: A Practical Guide for Beginners*. SAGE Publications.
- Braun, V. a Clarke, V. (2022) *Thematic Analysis: A Practical Guide*. SAGE.
- British Educational Research Association (2024) *Ethical Guidelines for Educational Research*. 5th edn. London: BERA. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-fifth-edition-2024> (Cyrchwyd: 10 Ebrill 2026).
- Bryman, A. (2016) *Social research methods*. 5th edn. Oxford University Press.
- Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K. (2018) *Research methods in education*. 8th edn. Routledge.
- Cook, T.D. a Campbell, D.T. (2000) *Quasi-experimentation: Design and analysis issues for field settings*. Houghton Mifflin.
- Creswell, J.W. (2014) *Research design: qualitative, quantitative, and mixed methods approaches*. Sage.
- Creswell, J.W. a Creswell, J.D. (2018) *Research design: qualitative, quantitative, and mixed methods approaches*. 5th edn. Sage.
- Creswell, J.W. and Poth, C.N. (2016) *Qualitative inquiry and research design: choosing among five approaches*. 4th edn. Sage.
- Deddf Diogelu Data (2018) UK Government. Ar gael: [Data Protection Act 2018 - GOV.UK](https://www.gov.uk/data-protection-act-2018) [Cyrchwyd: 22 Ebrill 2026].
- Denscombe, M. (2021) *The Good Research Guide: For Small-Scale Social Research Projects*. 7th edn. Open University Press.
- Dörnyei, Z. (2007) *Research methods in applied linguistics*. Oxford University Press.
- Elmas, Eda & Aydin, Selami. (2017). Pre-Service Foreign Language Teachers' Perceptions of Research Skills: A Qualitative Study. The Qualitative Report. 10.46743/2160-3715/2017.3194.
- European Union (2016) *General Data Protection Regulation (EU) 2016/679*. Official Journal of the European Union. Ar gael: [Regulation \(EU\) 2016/679 of the European Parliament and of the Council of 27 April 2016 on the protection of natural persons with regard to the](https://eur-lex.europa.eu/eli/reg/2016/679/oj)

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 2

[processing of personal data and on the free movement of such data \(United Kingdom General Data Protection Regulation\) \(Text with EEA relevance\)](#) [Cyrchwyd: 22 Ebrill 2026].

Farrimond, H. (2013) *Doing ethical research*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

GDPR (2016) *General Data Protection Regulation*. European Union. Ar gael: [What is GDPR, the EU's new data protection law? - GDPR.eu](#) [Cyrchwyd:22 Ebrill 2026].

Information Commissioner's Office (ICO) (2024) Guide to the UK GDPR: What is personal data? Ar gael: [What is personal data? | ICO](#) [Cyrchwyd: 19 Ebrill 2026].

Khan, S., Fazal, S. a Farrukh, N. (2025). A Qualitative Study of Prospective Teachers' Perceptions About Critical Thinking Skills Before and After Studying the Functional English Course. *SAGE Open*. 15. 10.1177/21582440241311153.

King, N. and Horrocks, C. (2010) *Interviews in qualitative research*. SAGE Publications.

Krueger, R.A. and Casey, M.A. (2015) *Focus groups: A practical guide for applied research*. 5th edn. SAGE Publications.

Mirhosseini, Seyyed-Abdolhamid & Pearson, William. (2024). How do language education researchers attend to quality in qualitative studies?. *Language Teaching*. 58. 10.1017/S0261444824000053.

Neuman, W.L. (2014) *Social research methods: Qualitative and quantitative approaches*. 7th edn. Pearson Education.

Palinkas, L.A., Horwitz, S.M., Green, C.A., Wisdom, J.P., Duan, N., a Hoagwood, K. (2015) 'Purposeful sampling for qualitative data collection and analysis in mixed method implementation research', *Administration and Policy in Mental Health and Mental Health Services Research*, 42(5), pp. 533–544.

Patton, M.Q. (2002) *Qualitative research and evaluation methods*. 3rd edn. SAGE Publications.

Polkinghorne, D.E. (1995) 'Narrative configuration in qualitative analysis', *International Journal of Qualitative Studies in Education*, 8(1), pp. 5–23.

Pring, R. (2015) *Philosophy of Educational Research*. 3rd edn. Bloomsbury.

Riessman, C.K. (2008) *Narrative Methods for the Human Sciences*. Sage.

Roulston, K. (2014) 'Interactional problems in research interviews', *Qualitative Research*, 14(3), pp. 277–293.

Saunders, B., Kitzinger, J. and Kitzinger, C. (2015) 'Anonymising interview data', *Qualitative Research*, 15(5), pp. 616–632.

Saunders, M., Lewis, P., Thornhill, A. (2023). *Research Methods for Business Students*. 9th edition. Pearson.

Sefydliad A (2022) *Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil*. Ar gael: <DILEWYD> [Cyrchwyd: 10 Ebrill 2026].

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 2

Sefydliad A (2022a). Polisi Rheoli Data Ymchwil. Ar gael: <DILEWYD> [Cyrchwyd: 10 Ebrill 2026].

Seidman, I. (2013) *Interviewing as qualitative research: A guide for researchers in education and the social sciences*. 4th edn. Teachers College Press.

Smith, T. (2024) *Qualitative and quantitative research*. Ar gael: [Qualitative and quantitative research | Social Sciences and Humanities | Research Starters | EBSCO Research](#) [Cyrchwyd: 19 Ebrill 2026]

Stewart, D.W. and Shamdasani, P.N. (2014) *Focus groups: Theory and practice*. 3rd edn. SAGE Publications

Thomas, G. (2021) *How to Do Your Research Project: A Guide for Students*. 3rd edn. Sage.

Trochim, W.M.K. a Donnelly, J.P. (2008) *The research methods knowledge base*. 3rd edn. Cengage Learning.

Wholey, J.S., Hatry, H.P. a Newcomer, K.E. (eds.) *Handbook of practical program evaluation*. 4th edn. John Wiley & Sons, pp. 492–505.